Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor | Busnes@ LlandrilloMenai

# ARWEINLYFR I GYRSIAU

## LLAWN AMSER



GWELLA DYFODOL POBL

SGILIAU LLWYDDIANT GEFNOGAETH

gllm.ac.uk

# CYNNWYS



## Gwybodaeth Gyffredinol


**2** Croeso
**4** Pam Dewis Dod i'r Coleg?
**6** Bywyd Myfyrwyr
**8** Campysau'r Coleg
**10** Rydym Yma i'ch Helpu
**12** Prentisiaethau
**13** Gyrfaoedd
**14** Eich Cwrs
**15** Pa Lefel sy'n Addas i Mi?


## Cyrsiau


**16** Mynediad i Addysg Uwch
**17** Lefel A
**18** Gwyddoniaeth Gymhwysol
**19** Celf a Dylunio
**19** Busnes
**20** Cyfrifiadura, Technolegau Digidol a Dylunio Gemau
**21** Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
**22** Peirianneg a Thechnoleg Ynni
**23** Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
**24** Glynllifon
**26** Trin Gwallt a Therapi Harddwch
**27** Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
**28** Lletygarwch ac Arlwyo
**29** Sgiliau Byw'n Annibynnol
**30** Technoleg Forol
**31** Cyfryngau, Teledu a Ffilm
**32** Technoleg Cerbydau Modur
**33** Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth
**33** Cyn-alwedigaethol
**34** Gwasanaethau Cyhoeddus
**34** Chwaraeon ac Addysg Awyr Agored
**35** Academïau Chwaraeon
**36** Teithio a Thwristiaeth


## Ydych chi'n Barod i Wneud Cais?


**37** Gyrfaoedd
**38** Gwnewch Gais Rŵan
**38** Gwybodaeth Bellach


SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH

gllm.ac.uk

---

## Cyfryngau Cymdeithasol

Facebook:
Coleg Llandrillo
Coleg Meirion-Dwyfor
Coleg Menai
Busnes@LlandrilloMenai
Coleg Glynllifon

Instagram:
@grwpllandrillomenai
@colegglynllifon

Twitter:
@colegllandrillo
@meiriondwyfor
@colegmenai
@BusnesLLM

TikTok:
@llandrillomenai



# oeso



**Gallai dod i'r coleg newid eich bywyd! Yn ôl ein cyn-fyfyrwyr, bu'r cyfleusterau tan gamp, y ffrindiau newydd a wnaethant a'r gefnogaeth a gawsant gan diwtoriaid yn fodd iddynt gael profiadau gwych yn y coleg, ac yn help iddynt gyrraedd targedau na chredent oedd yn bosibl.**

Yn yr arweinlyfr hwn, cewch fanylion y cyrsiau galwedigaethol, y pynciau Lefel A a'r prentisiaethau sydd ar gael i chi yng Ngholeg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Menai a Busnes@LlandrilloMenai – Yn yr arweinlyfr hwn, cewch fanylion y cyrsiau galwedigaethol, y pynciau Lefel A a'r prentisiaethau llawn amser sydd ar gael i chi yng Ngholeg Llandrillo, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai.

Ydych chi'n ystyried beth i'w wneud ar ôl gorffen eich arholiadau TGAU, yn awyddus i gael swydd newydd neu â'ch bryd ar fynd i brifysgol? Wel, mae gennym lwybr sy'n addas i chi.

Pa gymhwyster bynnag y dewiswch ei astudio yn y coleg, gallwn eich sicrhau y bydd safon yr addysgu'n ardderchog ac y cewch gefnogaeth bersonol i ddilyn llwybr a fydd yn arwain at ddyfodol gwell.

# PAM DEWIS DOD I'R COLEG?

## CANLYNIADAU RHAGOROL

Bob blwyddyn, bydd ein myfyrwyr yn cael canlyniadau rhagorol ac yn dewis un ai parhau a'u hastudiaethau mewn prifysgol neu fynd ymlaen i fyd gwaith. Yn 2021, roedd cyfradd llwyddo ein myfyrwyr Lefel A yn 99% ac mae rhai o'n cyn-fyfyrwyr wedi mynd ymlaen i astudio ym mhrifysgolion Caergrawnt a Rhydychen a phrifysgolion blaenllaw eraill sy'n perthyn i Grŵp Russell. Yn fwy na hynny, ar Lefel A, derbyniodd 50% o'n myfyrwyr y graddau A * ac A chwaethus.

Cyflawnodd 95% o fyfyrwyr eu cymwysterau BTEC yn 2020/21 gyda 37.5% yn cyflawni Rhagoriaeth * neu Ragoriaeth.

Mae ein prentisiaid wedi ennill llu o wobrau pwysig, gan gynnwys 'Prentis y Flwyddyn' Redrow a 'Medal Ragoriaeth' yn rownd derfynol cystadleuaeth WorldSkills. Mae llawer o fyfyrwyr yn cymryd yn rhan yng nghystadlaethau WorldSkills ac mae athletwyr talentog o'r academïau wedi mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ar lefel ryngwladol.

## AMGYLCHEDD CROESAWUS A CHYFEILLGAR

Mae ein colegau'n cynnig amgylchedd croesawgar, amrywiol a chynhwysol iawn lle bydd staff yn eich cefnogi i sicrhau eich bod chi'n cael y gorau o'ch amser yn y coleg. Byddwch yn gwneud ffrindiau newydd a gallwch ymuno ag amrywiaeth o glybiau colegol. Cewch eich trin fel oedolyn a byddwn yn eich helpu i fagu hyder a datblygu eich annibyniaeth.

## DEWISIADAU EANG

Rydym yn cynnig ystod enfawr o gyrsiau llawn amser, pynciau Lefel A ac amrywiol lwybrau prentisiaeth fel y gallwch ddod o hyd i gwrs sy'n addas i chi ac sy'n cyd-fynd â'ch ymrwymiadau eraill. Mae'r coleg yn cynnig pynciau academaidd a galwedigaethol mewn dros 25 maes pwnc, gan ei gwneud yn hawdd i chi ddod o hyd i'ch cwrs delfrydol. O ran pynciau Lefel A/AS yn unig, gallwch ddewis o blith dros 30 pwnc gwahanol!

## CYFLEUSTERAU O'R RADD FLAENAF

Gan mai ni yw'r coleg mwyaf yng Nghymru, yn ddiweddar rydym wedi gallu buddsoddi dros £30 miliwn mewn cyfleusterau sy'n sicrhau eich bod yn cael profiadau dysgu tan gamp. Ar ein campysau mae gennym ddwy ganolfan beirianneg fodern, ynghyd a chanolfannau arbenigol ym maes cyfrifiadura a realiti rhithwir, iechyd a gofal a lletygarwch. Yn y canolfannau hyn ceir yr offer diweddaraf sydd o'r un safon ag a geir mewn diwydiant. Bydd hyn yn rhoi profiad i chi o'r byd go iawn ac yn eich paratoi ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol.

Pan na fyddwch mewn gwers, cewch ddefnyddio'r cyfleusterau ar y safleoedd sy'n cynnwys y llyfrgelloedd, y canolfannau chwaraeon a'r campfeydd, neu ymlacio gyda phaned o goffi yn un o'r amrywiol gaffis a ffreuturau.

## CYFLEOEDD I GYFOETHOGI PROFIADAU MYFYRWYR

Tra byddwch yn astudio yn y coleg, cewch gyfleoedd i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau allgyrsiol fydd yn eich helpu i feithrin annibyniaeth a hyder ac yn ehangu eich profiadau. Ar y gwahanol gampysau gallwch gymryd rhan mewn sawl camp, gan gynnwys athletau, badminton, pêl-fasged, pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, rygbi a sboncen, am hwyl neu'n gystadleuol, yn ogystal â nifer o weithgareddau awyr agored.

## CEFNOGAETH RAGOROL I FYFYRWYR

Dyfarnodd arolygiad diwethaf y llywodraeth bod safon y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwn i fyfyrwyr yn 'rhagorol' - felly cewch bob gofal yn ystod eich amser yn y coleg.

Fel myfyriwr llawn amser cewch Diwtor Personol a fydd yn eich helpu i ymgynefino â bywyd yn y coleg ac yn cynllunio ac adolygu eich cynnydd er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cyrraedd eich targedau. Gallwch gael cyngor ac arweiniad gan staff cyfeillgar ein Gwasanaethau i Ddysgwyr ar amrywiaeth o faterion sy'n cynnwys diogelu, lles, cymorth ychwanegol i astudio, materion ariannol, cyngor gyrfaol a gwasanaethau cwnsela cyfrinachol.

## CYMHWYSOL I'R GWEITHLE

Mae llawer o'n cyrsiau a'n prentisiaethau wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â chyflogwyr er mwyn sicrhau bod gennych y sgiliau cywir ar gyfer y gweithle pan fyddwch yn gadael y coleg. Bydd y sgiliau a ddysgwch yn y coleg, fel sgiliau cyfathrebu a rheoli amser a sgiliau sy'n gysylltiedig â meithrin annibyniaeth, gwaith tîm, sgiliau cymdeithasol a phrofiad gwaith, yn eich gwneud yn fwy cyflogadwy a pharod i ymgodymu â byd gwaith neu addysg uwch. Mae llawer o'r cyrsiau hefyd yn cynnwys cyfleoedd i fynd ar leoliadau gwaith ac ymweliadau ac i wrando ar siaradwyr gwadd.

## STAFF ADDYSGU ARBENIGOL

Mae ein staff addysgu yn brofiadol iawn ac mae llawer ohonynt yn arbenigwyr yn eu meysydd. Fel myfyriwr yn y coleg, byddwch chi'n elwa o'u profiad galwedigaethol cryf gan fod llawer o'n staff wedi gweithio o fewn diwydiant.



**Dyfarnodd arolygiad diwethaf y llywodraeth bod safon y gofal, y gefnogaeth a'r arweiniad a roddwn i fyfyrwyr yn 'rhagorol' - felly cewch bob gofal yn ystod eich amser yn y coleg.**

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



# BYWYD MYFYRWYR

## UNDEB Y MYFYRWYR

Mae pob un o'r tri choleg yn ethol ei lywydd ei hun i Undeb y Myfyrwyr. Y llywyddion hyn sy'n cynrychioli llais y myfyrwyr, ac maent yn trefnu digwyddiadau amrywiol trwy gydol y flwyddyn. Yn 2018, 2019 a 2020 enillodd ein Hundeb Myfyrwyr wobr NUS Cymru i Undeb Myfyrwyr AB y Flwyddyn!

## LLYSGENNAD ACTIF A LLES

Lluniwyd y Rhaglen Llysgennad Actif a Lles i feithrin arweinwyr y dyfodol yng Ngrŵp Llandrillo Menai, ac i hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a lles a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

## Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei sefydlu yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Os hoffech ragor o wybodaeth am y gangen, gan gynnwys sut i ddod yn Llysgennad Myfyriwr neu sut i gael cymorth ariannol a chefnogaeth i'ch annog i ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg a dwyieithog yn y coleg gallwch anfon neges e-bost at Swyddogion y Gangen - colegcymraeg@gllm.ac.uk

**Gallwch hefyd ddilyn sianeli cyfryngau cymdeithasol y gangen:**

@SCGLLM @cangengllm @llysgenhadongllm





## CHWARAEON

Ar y gwahanol gampysau gall myfyrwyr gymryd rhan mewn sawl camp, gan gynnwys athletau, badminton, pêl-fasged, pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, rygbi a sboncen, am hwyl neu'n gystadleuol, yn ogystal â nifer o weithgareddau awyr agored.




## BWYD A DIOD

Ar ein campysau mae gennym ddewis helaeth o gaffis a bwytai, gan gynnwys Starbucks a Costa.



## DATHLU LLWYDDIANT

Bob blwyddyn, byddwn yn cynnal nifer o seremonïau gwobrwyo, gan gydnabod dysgwyr talentog a gweithgar o'r holl golegau. Ynghanol y gwobrau a'r tlysau, yr adloniant a'r siaradwyr gwadd arbennig, ein dysgwyr yw sêr y digwyddiadau hyn!

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

# CAMPYSAU'R COLEGAU



LLANGEFNI




PARC MENAI



BANGOR



GLYNLLIFON



PWLLHELI




Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

# RYDYM YMA



# CEFNOGAETH I FYFYRWYR

## TÎM Y GWASANAETHAU I DDYSGWYR

Pa gampws bynnag y byddwch yn ei fynychu, bydd tîm cyfeillgar y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn siop un stop i chi gael gwybodaeth am bob math o bynciau:

- Cyngor ynghylch gwneud cais am gyrsiau a gofynion mynediad
- Ffioedd cyrsiau a chyllid
- Cyngor gyrfaol
- Cyfleoedd o ran gwaith a lleoliadau gwaith i raddedigion
- Iechyd a Lles
- Ceisiadau UCAS
- Cludiant

A llawer iawn mwy...

## LLES MYFYRWYR

Rydym yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am y cymorth arbenigol sydd ar gael a'ch cyfeirio at asiantaethau allanol. Gall Tiwtoriaid Personol a staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr ddarparu cymorth ynghylch amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Iechyd a lles
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Mentora
- Cwnsela tymor byr
- Diogelu

Mae cymorth personol a chyfrinachol ar gael i Ofalwyr Ifanc, Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal.

## CYMORTH A CHWNSELA CYFRINACHOL

Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau personol, emosiynol a/neu anawsterau'n gysylltiedig â'u lles. Mae staff cymwysedig wrth law i gynnig cefnogaeth gyfrinachol i'ch helpu drwy gyfnod anodd neu argyfwng personol.

## CYMORTH DYSGU

Mae gan y coleg staff arbenigol i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddant yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun fydd yn sicrhau eich bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gewch yn y coleg ac yn llwyddo i ennill eich cymhwyster. Gall y cymorth fod ar ffurf:

- Cymorth 1.2.1
- Cefnogaeth dechnegol
- Asesiadau risg
- Cynlluniau gofal
- Sgiliau astudio
- Addasu amodau arholiad

Cymraeg

## ASTUDIO DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Heddiw, mae llawr o swyddi yng Nghymru'n gofyn am y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, gallai astudio'n ddwyieithog roi mantais i chi pan fyddwch yn chwilio am waith. Mae nifer o'r cyrsiau'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog ac rydym yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr feithrin sgiliau Cymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## CYFLEUSTERAU A CHYMORTH I BOBL ANABL

Mae'r colegau'n gwbl gynhwysol ac yn darparu cyfle cyfartal i bawb. Gall pob campws ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw neu sydd angen help llaw i symud o gwmpas.

## DYSGU AR-LEIN AC O BELL

Mae mwyafrif y cyrsiau'n cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb yn y coleg ond efallai y bydd adegau pan fydd angen i chi astudio gartref. Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur personol adref, gallwch fenthyg offer digidol gan y coleg.

SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH
gllm.ac.uk

# I'CH HELPU



## CEFNOGAETH ARIANNOL

Fe all cymorth ariannol fod ar gael i'ch helpu i dalu am eich astudiaethau. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallech fod yn gymwys i gael cymorth ariannol i astudio. Mae gennym dîm o gynghorwyr a fydd yn gallu mynd â chi drwy'r manylion. Gall y cymorth ariannol sydd ar gael gynnwys:

### LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (LCA)

Os ydych rhwng 16 a 18 oed ac yn dilyn cwrs am fwy na 12 awr yr wythnos, mae'n bosibl y gallwch gael £30 yr wythnos. Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn ddibynnol ar brawf modd, felly gofynnwch i dîm y Gwasanaethau i Ddysgwyr am ragor o wybodaeth.

### GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU

Os ydych yn 19+ oed ac yn byw yng Nghymru, gallwch wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i'ch helpu gyda chostau dilyn eich cwrs. Bydd y swm a delir yn dibynnu ar incwm eich teulu ac ar nifer eich oriau astudio. Mae Grant Dysgu Llywodraeth Cymru'n ddibynnol ar brawf modd, felly gofynnwch i dîm y Gwasanaethau i Ddysgwyr am ragor o wybodaeth.

### Y GRONFA CEFNOGI DYSGWYR

Angen arian tuag at gostau dillad gweithio, offer neu ofal plant? Mae'r Gronfa Cefnogi Dysgwyr yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr llawn amser sy'n ei chael hi'n anodd talu rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'u cwrs. Gall y gronfa hon eich helpu i dalu costau'n gysylltiedig â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, llety mewn hostel, dillad gweithio, citiau, cyfarpar, ffioedd stiwdio, tripiau, teithio i'r coleg a gofal plant. Gall staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr roi cyngor a gwybodaeth ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael.

### LWFANS BWYD DYDDIOL

Mae Lwfans Bwyd Dyddiol ar gael i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed sydd wedi cofrestru ar raglen llawn amser, ac sydd wedi derbyn prydau ysgol am ddim. Bydd staff Gwasanaethau Dysgwyr yn darparu gwybodaeth bellach.

Busnes@ LlandrilloMenai

Prentisiaethau Apprenticeships

# PRENTISIAETHAU

Mae Prentisiaethau'n dod yn llwybr mwyfwy poblogaidd at yrfa lwyddiannus. Wrth ddilyn prentisiaeth byddwch yn ennill cyflog wrth i chi ddysgu, gan ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol a meithrin sgiliau a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith. Bydd hyn i gyd yn eich helpu i wneud argraff yn y farchnad swyddi.

Wrth i chi feithrin sgiliau, byddwch yn magu hyder a phrofiad yn y byd gwaith ac yn dod i wybod am y galwadau fydd arnoch a'r cyfleoedd fydd ar gael i chi. Beth bynnag yw'ch uchelgais a'ch gobeithion o ran gyrfa, mae prentisiaethau addas ar gael. Felly beth am weld a oes un yn apelio atoch chi? Chwiliwch am y symbol prentisiaethau yn y llawlyfr cyrsiau hwn!

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## TAITH Y PRENTIS

**MAE'N DDIBEN-DRAW!**

- Aelodaeth Broffesiynol
- RHEOLWR
- Prentisiaeth Uwch neu Gradd
- TECHNEGYDD CYMWYSEDIG / ARWEINYDD TÎM
- Prentisiaeth (Yn gywerth â 3 Lefel A)
- TECHNEGYDD RHANNOL-GYMWYSEDIG
- Prentisiaeth Sylfaen (Yn gywerth â 5 TGAU (A–C))
- GADAEL YSGOL



SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH
gllm.ac.uk

Ewch i'n gwefan i gael gwybod rhagor am Brentisiaethau

# GRADDAU


Rydym yn cynnig dewis helaeth o gymwysterau lefel uwch, o Raddau Sylfaen i Brentisiaethau Uwch a Gradd. Mae llawer o'n cyrsiau'n arwain at gymwysterau Addysg Uwch galwedigaethol sydd wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â chyflogwyr. Eu bwriad yw rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae ar gyflogwyr eu hangen, a'ch helpu i symud ymlaen i waith.






SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH
gllm.ac.uk

I gael gwybod rhagor, edrychwch ar ein Harweinlyfr i Gyrsiau Lefel Gradd neu ewch i'r wefan.



# EICH CWRS

## MATHEMATEG A SAESNEG

Yn achos llawer o gyrsiau, rydym yn gofyn am nifer penodol o TGAU gradd A*-C a gorau oll os ydynt yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg/Saesneg.

Os nad oes gennych radd C neu uwch mewn Mathemateg a/neu Gymraeg/Saesneg, byddwn yn eich cefnogi i ailsefyll y pynciau hyn yn rhan o'ch rhaglen astudio. Ond, gan y bydd ailsefyll y cymwysterau TGAU hyn yn dreth ychwanegol ar eich amser, bydd o fantais i chi wneud eich gorau glas i gael graddau da'r tro cyntaf y byddwch yn eu sefyll.


Beth bynnag a gawsant yn eu TGAU, bydd disgwyl i bob myfyriwr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a mathemateg ymhellach.  Bydd cyfleoedd i wneud hyn yn rhan annatod o aseiniadau cyrsiau a Bagloriaeth Cymru, profiad gwaith a gweithgareddau eraill.

## BAGLORIAETH CYMRU

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster gwerthfawr sy'n aml yn cael ei astudio ochr yn ochr â'ch cwrs llawn amser.

Caiff y cymhwyster ei raddio A*–E, ac mae'n gyfwerth â'r un nifer o bwyntiau UCAS ar Lefel 3. Bydd yn rhoi i chi sgiliau personol a sgiliau busnes trosglwyddadwy ac mae prifysgolion a chyflogwyr yn ei ystyried yn gymhwyster gwerthfawr. Yn rhan o'r cymhwyster, byddwch yn dysgu am Ddinasyddiaeth Fyd-eang, Mentergarwch a Chyflogadwyedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ac yn mynd ar brofiad gwaith

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**





# PA LEFEL SY'N ADDAS I MI?

Yn ein colegau, cynigir y dewis mwyaf o gyrsiau addysg bellach ac addysg uwch yng Ngogledd Cymru ac maent yn amrywio o gyrsiau Lefel Mynediad i gyrsiau Gradd Anrhydedd. Dyma ganllawiau syml sy'n esbonio'r gwahanol lefelau sydd ar gael.

| Lefel | Cymhwyster | Beth Nesaf? |
|---|---|---|
| Lefel Mynediad | Paratoi ar gyfer cymwysterau Lefel 1, Hyfforddeiaeth Ymgysylltu | Cymhwyster neu hyfforddeiaeth Lefel 1 |
| Sylfaen Lefel 1 | BTEC Lefel 1, NVQ Lefel 1, Hyfforddeiaeth Lefel 1, City & Guilds Lefel 1, VRQ Lefel 1 | Cymhwyster neu brentisiaeth Lefel 2 |
| Canolradd Lefel 2 | BTEC Lefel 2, NVQ Lefel 2, TGAU, Prentisiaeth Lefel 2, City & Guilds Lefel 2, VRQ Lefel 2 | Cymhwyster neu brentisiaeth Lefel 3, neu waith |
| Uwch Lefel 3 | Lefel A, Mynediad i Addysg Uwch, BTEC Lefel 3, NVQ Lefel 3, Prentisiaeth Lefel 3, VRQ Lefel 3 | Cwrs lefel prifysgol yn y coleg neu mewn sefydliad arall, prentisiaeth uwch neu waith |
| Cyrsiau Lefel Prifysgol (Lefelau 4 - 6) | Tystysgrif Addysg Uwch, HNC/D, Gradd Sylfaen, Prentisiaeth Uwch | Gradd Anrhydedd atodol BA/BSc/BEng neu waith |
| | Gradd Anrhydedd BA/BSc/BEng, Prentisiaeth Gradd | Cymhwyster ôl-radd mewn sefydliad arall neu waith |

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

# MYNEDIAD I ADDYSG UWCH

I fyfyrwyr nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol ond a hoffai fynd ymlaen i astudio ar lefel prifysgol, mae cwrs Mynediad i Addysg Uwch yn ddull cyffrous a deinamig o ddysgu.

Bydd ein myfyrwyr yn cael canlyniadau eithriadol o dda bob blwyddyn ac yn mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau gradd mewn meysydd fel Troseddeg, Gwyddor Fforensig, Nyrsio, Therapi Galwedigaethol ac Addysgu, un ai yng Ngrŵp Llandrillo Menai neu mewn prifysgolion eraill.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Celf a Dylunio
- Biowyddorau
- Iechyd a Gofal
- Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol
- Gwyddoniaeth
- Gwyddorau Cymdeithasol

Mynediad
i Addysg Uwch

I gael rhagor o wybodaeth:








CHWECHED

**Dwyfor Meirionnydd Menai Rhos Rhyl**

SIXTH

## Mae ein canolfannau Chweched Dosbarth yn gam nesaf delfrydol i chi os ydych yn gobeithio mynd ymlaen i brifysgol neu i waith ar ôl dilyn eich cyrsiau Lefel A.

Yn 2021, roedd cyfradd llwyddo ein dysgwyr Lefel A yn 99% ac aeth llawer ohonynt ymlaen i astudio mewn prifysgolion blaenllaw sy'n perthyn i Grŵp Russell, gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt! Yn fwy na hynny, ar Lefel A, derbyniodd 50% o'n myfyrwyr y graddau A * ac A chwaethus.

Yn ogystal, mae ein colegau'n rhan o gynllun Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i gefnogi'r rhai mwyaf galluog i wireddu eu potensial academaidd yn llawn ac i gael lle yn y prifysgolion gorau.

Rydym yn cynnig dros 30 o gyrsiau Lefel AS/A a gyflwynir gan diwtoriaid profiadol a chymwys dros ben. Gan fod dewis mor eang ar gael, rydych yn siŵr o ddod o hyd i bynciau sy'n addas i chi.

Yn ogystal, byddwch yn astudio Bagloriaeth Cymru sy'n cyfateb i gymhwyster Lefel A llawn ac yn werth pwyntiau UCAS gwerthfawr a fydd yn eich galluogi i fynd ymlaen i astudio mewn prifysgol.

Gwnewch gais ar-lein:

**gllm.ac.uk**

**Rydym yn cynnig cyrsiau AS/Lefel A yn y pynciau a ganlyn:**

Celf, Crefft a Dylunio
Celf a Dylunio
Celf a Dylunio (Graffeg)
Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)
Bioleg
Astudiaethau Busnes
Cemeg
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Drama ac Astudiaethau Theatr
Economeg
Saesneg Iaith
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg
Llenyddiaeth Saesneg
Astudiaethau Ffilm
Ffrangeg
Mathemateg Bellach
Daearyddiaeth
Hanes
Y Gyfraith
Mathemateg
Astudio'r Cyfryngau
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol
Ffiseg
Seicoleg
Astudiaethau Crefyddol
Cymdeithaseg
Cymraeg
Cymraeg (Ail Iaith)

Sganiwch y cod QR i weld rhestr lawn o'r cyrsiau ac i gael gwybodaeth fanwl amdanynt




## GWYDDONIAETH GYMHWYSOL

Bydd ein cyrsiau Gwyddoniaeth Gymhwysol, a gynhelir mewn labordai soffistigedig, yn rhoi sylfaen gadarn i chi ym maes egwyddorion gwyddonol. Ar y cyrsiau hyn, cewch feithrin dealltwriaeth eang a sylfaenol o wyddoniaeth a'i chymwysiadau ymarferol. Gallech fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau Lefel A, Mynediad i Addysg Uwch neu gyrsiau gwyddonol ar lefel prifysgol, neu gallech fynd i weithio mewn maes gwyddonol neu faes sy'n ymwneud ag iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## CELF A DYLUNIO

Mae gan ein hadrannau celf enw rhagorol ac maent yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau eang ac arbenigol. Dysgir y cyrsiau galwedigaethol mewn stiwdios, gyda chymorth cyfrifiaduron Apple Mac pwrpasol a meddalwedd o’r un safon ag a geir mewn diwydiant. Ceir cyfle hefyd i arbenigo mewn cyrsiau Celfyddyd Gain a Ffotograffiaeth ar lefel gradd, yn ogystal â’r cwrs MA cyffrous mewn Celfyddyd Gain.

I gael rhagor
o wybodaeth



## BUSNES

Cynlluniwyd ein cyrsiau busnes i feithrin y wybodaeth, yr hyder, y sgiliau rhyngbersonol a’r sgiliau ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, gan baratoi myfyrwyr ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd ym maes busnes, gwasanaethau ariannol, marchnata, rheoli a’r sector cyhoeddus. Mae meithrin sgiliau entrepreneuraidd yn elfen bwysig yn nifer o’n cyrsiau.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Gweinyddu Busnes
- Astudiaethau Busnes
- Sgiliau Darparu Gwasanaeth i Gwsmeriaid
- Gweinyddu Meddygol
- Sgiliau Swyddfa

PRENTISIAETHAU AR GAEL!



I gael rhagor
o wybodaeth

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



## CYFRIFIADURA, TECHNOLEGAU DIGIDOL A DATBLYGU GEMAU

Bydd ein cymwysterau'n rhoi sylfaen gadarn i chi mewn meysydd fel amlgyfryngau, rhwydweithio, rhaglennu a datblygu gemau cyfrifiadur. Caiff myfyrwyr ddefnyddio consolau, VR/AR (Hololens, Oculus Rift), argraffwyr 3D, llechi graffeg Wacom, labordai caledwedd a meddalwedd a chyfrifiaduron sy'n gallu rhedeg meddalwedd technegol a ddefnyddir yn y diwydiant. Caiff myfyrwyr hefyd gyfle i fynd ar leoliadau gwaith gan weithio ar amrywiaeth o brosiectau mawr gyda chyflogwyr adnabyddus. Drwy raglen Imagine, mae gan ein myfyrwyr rhaglennu a rhwydweithio hawl i gael mynediad am ddim at gopïau o feddalwedd allweddol gan Microsoft.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Technoleg Ddigidol
- E-Chwaraeon (Esports)
- Datblygu Gemau
- Technoleg Gwybodaeth
- Datblygu Meddalwedd

I gael rhagor o wybodaeth



Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



SGILIAU LLWYDDIANT
gllm.ac.uk
CEFNOGAETH



## ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae gan ein colegau berthynas ardderchog â Sgiliau Adeiladu, Cyngor Sgiliau Sector y diwydiant, yn ogystal â chyflogwyr lleol, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**


- Gwaith Brics
- Gwaith Saer ac Asiedydd
- Adeiladu Uwch
- Gosod Trydan
- Paentio ac Addurno
- Plastro
- Plymwaith


PRENTISIAETHAU AR GAEL!

I gael rhagor o wybodaeth



Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**







PRENTISIAETHAU AR GAEL!

## PEIRIANNEG A THECHNOLEG YNNI

Caiff ein holl gyrsiau eu darparu mewn ystafelloedd dosbarth modern a gweithdai o safon ddiwydiannol. Rydym yn cydweithio â chwmnïau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i alluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau o ansawdd uchel y mae ar gyflogwyr eu hangen.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Peirianneg
- Peirianneg Awyrennaeth
- Ffabrigo a Weldio
- Peirianneg Fecanyddol
- Peirianneg Ynni

I gael rhagor o wybodaeth

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



## SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL (ESOL)

Mae ein cyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn addas i unrhyw un nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Os ydych eisiau gwella eich sgiliau Saesneg ar gyfer y gweithle, neu'n teimlo eich bod angen gwella eich Saesneg llafar neu ysgrifenedig, bydd ein hathrawon ESOL profiadol a chyfeillgar yn eich helpu i osod nodau i chi eich hun gan eich cefnogi i'w cyflawni.

**Bydd y cyrsiau hyn yn:**

- Eich helpu i wella eich iaith, eich sgiliau a'ch hyder
- Eich helpu i ddysgu'r iaith a'r sgiliau rydych eu hangen i fyw a gweithio yng Nghymru
- Eich paratoi i ddod o hyd i hyfforddiant a gwaith
- Rhoi cyfle i chi gyfarfod â phobl o bob cwr o'r byd a gweithio ochr yn ochr â phobl leol

**Yn ogystal â gloywi'ch Saesneg, byddwch yn astudio amrediad o gyrsiau eraill a fydd yn eich helpu i wella'ch cyfleoedd. Fel arfer, mae'r pynciau'n cynnwys:**

- Saesneg Cyffredinol
- Sgiliau Siarad a Gwrando
- Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu
- Saesneg ar gyfer Gwaith
- Tiwtorialau personol
- ESOL a TG (dewisol)
- ESOL a Mathemateg (dewisol)

I gael rhagor o wybodaeth


Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

# GLYNLLIFON

Mae'r rhaglenni canlynol i gyd ar gael ar gampws Glynllifon. Ceir yno hefyd lu o gyfleusterau pwrpasol i gyd-fynd â'r cyrsiau a ddarperir ym maes diwydiannau'r tir.

**Ym mloc addysgu Llifon, a gostiodd £7.4 miliwn i'w godi, ceir:**

- Ystafelloedd dosbarth modern
- Ystafelloedd TG
- Llyfrgell a chanolfan adnoddau
- Darlithfa fawr
- Prentisiaeth Cadwraeth Amgylcheddol



## LLETY

Yn ystod yr wythnos, gall myfyrwyr o bell aros yn y llety cyfforddus a ddarperir ar gampws Glynllifon. Mae yno wardeiniaid i gefnogi a goruchwylio'r myfyrwyr gyda'r nos a thros nos. Gall y preswylwyr ddefnyddio'r ystafell deledu, y byrddau pŵl a thennis bwrdd, offer y gampfa, yn ogystal â'r ceginau hunanarlwyo a'r lolfeydd. Yn rheolaidd, cynhelir gweithgareddau gyda'r nos, gan gynnwys sesiynau coginio, sesiynau ffitrwydd a saethu colomennod clai.

## PEIRIANNEG DIWYDIANNAU'R TIR

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys gweithdai peirianneg pwrpasol a chaiff myfyrwyr y cyfle i weithio ar y peiriannau a ddefnyddir ar fferm fasnachol 160 hectar y coleg. Yn ddiweddar, cafodd y gweithdai eu hehangu ac adeiladwyd parthau weldio newydd er mwyn i ddysgwyr gael profiad realistig a pherthnasol o weithio ar beiriannau'r tir.

I gael rhagor o wybodaeth:



Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## COEDWIGAETH A RHEOLI CEFN GWLAD

Bydd y cyrsiau ymarferol hyn yn eich galluogi i feithrin sgiliau a gwybodaeth mewn amryw o feysydd cysylltiedig fel Cadwraeth, Rheoli Cynefinoedd, Rheoli Plâu a Defnyddio Llif Gadwyn. Cewch gyfle hefyd i ennill tystysgrifau technegol ychwanegol. Rheolir y goedwig yn unol â Chynllun Rheoli Coetir 'Glastir'. Yn ogystal, mae rhannau o'r fferm yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Ewropeaidd. Mae'r rhain eto'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr.




I gael rhagor o wybodaeth:



I gael rhagor o wybodaeth:

## AMAETHYDDIAETH

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

Bydd ein cyrsiau Amaethyddol yn eich helpu i feithrin sgiliau a dysgu am amryw o bynciau perthnasol fel Cynhyrchu Da Byw, Tir Glas a Chnydau, a Rheoli Fferm. Er bod y fferm yn cael ei rheoli'n fasnachol, rydym hefyd yn cydweithio â sefydliadau fel Prifysgol Bangor er mwyn gweithio ar brosiectau ac arbrofion amaethyddol.

## ASTUDIAETHAU ANIFEILIAID A NYRSIO MILFEDDYGOL

Fel myfyriwr sy'n dilyn rhaglen Astudiaethau Anifeiliaid, byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth mewn amryw o feysydd cysylltiedig fel Iechyd a Lles Anifeiliaid, Hyfforddi Anifeiliaid, Magu Anifeiliaid, Maetheg, Paratoi Anifeiliaid a Rheoli Busnes.

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Astudiaethau Anifeiliaid
- Rheoli ym maes Anifeiliaid


Er mwyn cyflwyno'r cwrs Diploma Lefel 3 mewn Nyrsio Milfeddygol, a gymeradwyir gan Goleg Brenhinol y Milfeddygon, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â grŵp o filfeddygon cyswllt.



I gael rhagor o wybodaeth:

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



## TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

Darperir eich hyfforddiant mewn salon o’r radd flaenaf a chewch eich dysgu sut i ddefnyddio’r technegau a’r cynhyrchion diweddaraf, yn cynnwys rhai Wella, Goldwell, Dermalogica a Tan Truth.

Mae’r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Francesco sy’n adnabyddus iawn ac wedi ennill llu o wobrau. Bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth flynyddol a gynhelir yn y coleg gerbron cyflogwyr lleol, yn ymweld ag arddangosfeydd cenedlaethol ac yn cael profiad gwaith. Bob blwyddyn, mae ein myfyrwyr yn ennill cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Gwaith Barbwr
- Therapi Harddwch
- Ffasiwn, Theatr a Chyfryngau
- Trin Gwallt
- Therapi Tylino
- Technoleg Ewinedd
- Therapi Sba

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



## IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

Mae gennym gyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n cynnwys ward ysbyty saith gwely ar ein campws yn Llandrillo-yn-Rhos sy'n cynnig amgylchedd dysgu realistig i'n myfyrwyr. Mae gan ein staff addysgu brofiad helaeth ym maes Gofal Plant, Iechyd, a Gofal Cymdeithasol ac maent yn cynnwys Nyrsys Cofrestredig, Gweithwyr Cymdeithasol Cofrestredig, Cwnselwyr, Therapyddion Galwedigaethol a Rheolwyr Meithrinfeydd a Chanolfannau Gofal Plant.

Mae gan y Grŵp gysylltiadau helaeth â chyflogwyr lleol a chenedlaethol, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth drwy gynnig ymweliadau, siaradwyr gwadd a chyfleoedd gwaith. Ochr yn ochr â'ch rhaglen astudio, cewch gyfle i fynd ar leoliadau gwaith i amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynnwys: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdodau Lleol, darparwyr Gofal Preswyl a Gofal yn y Cartref, ynghyd â darparwyr Gofal Plant a Meithrinfeydd.

Bob blwyddyn, mae ein myfyrwyr yn symud ymlaen i amrywiaeth o yrfaoedd, gan gynnwys Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gwaith Cymdeithasol, Iechyd Galwedigaethol, Troseddeg ac ati. Yn ogystal, mae'r Grŵp yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gradd y gall myfyrwyr ddewis symud yn uniongyrchol iddynt er mwyn cael swyddi gwell.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Datblygiad ac Addysg Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol




I gael rhagor o wybodaeth:

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**



## LLETYGARWCH AC ARLWYO

Cafodd ein hadrannau Lletygarwch radd 'Rhagoriaeth' gan Estyn, Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Y maes rhaglen Lletygarwch ac Arlwyo yw'r unig un yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau llawn amser a rhan-amser, o Lefel 1 hyd at Raddau Anrhydedd, mewn Celfyddydau Coginio a Rheoli ym maes Lletygarwch. Mae hefyd yn darparu prentisiaethau, cymwysterau NVQ a hyfforddiant wedi'i deilwra i rai sy'n gweithio yn y diwydiant. Cewch y cyfle i gael eich dewis i gymryd rhan ym Mhencampwriaethau Coginio Cymru lle mae ein dysgwyr wedi cael llwyddiant sylweddol dros y blynyddoedd. Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau cenedlaethol sy'n cynnwys Torque Dôr, Seafish a Worldskills. Mae lleoliadau gwaith ar draws Ewrop, a ariennir y llawn gan raglen Erasmus+, yn rhoi cyfle i chi feithrin sgiliau cyflogadwyedd.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Lletygarwch ac Arlwyo
- Coginio Proffesiynol a Gweini Bwyd a Diod
- Coginio Proffesiynol (Cegin a Phantri)



Canmolodd arolygwyr Estyn y cyfleoedd arloesol a roddir i ddysgwyr "gyfranogi mewn ystod o brosiectau medrau a chyflogadwyedd rhyngwladol" ac "i gael profiad gwerthfawr iawn yn gysylltiedig â gwaith mewn amgylchedd proffesiynol".

I gael rhagor o wybodaeth:

PRENTISIAETHAU AR GAEL!



Gwnewch gais ar-lein:

**gllm.ac.uk**



## SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

Mae'r maes hwn yn cynnwys tri llwybr:

**Sgiliau Bywyd a Gwaith**
Ar y llwybr hwn, cefnogir pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth i feithrin sgiliau a fydd yn eu galluogi i weithio a/neu i fyw mewn tŷ gyda chymorth. Mae'r holl gyrsiau'n cynnig cyfleoedd gwaith gydag amrywiaeth o gyflogwyr, er enghraifft: Fferm Bodafon, Zip World, The Rabbit Hole, Hosbis Dewi Sant, Parc Eirias a Premier Inn.

**Sylfaen**
Ar y llwybr hwn, cefnogir pobl ifanc er mwyn iddynt fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau uwch. Mae hyn yn cynnwys mynd ymlaen yn syth i ddarpariaeth prif ffrwd neu swydd (cyflogaeth gyda chefnogaeth neu brentisiaeth) neu i ddilyn rhaglen ymgysylltu/hyfforddeiaeth. Caiff dysgwyr Sylfaen gyfle i gael profiad gwaith, yn y gymuned ac mewn amgylcheddau gwaith go iawn yn y coleg. Cânt hefyd fynd i feysydd rhaglen eraill ar y campysau perthnasol i gael rhagflas o rai cyrsiau galwedigaethol.

**Dod yn Fwy Annibynnol**
Ar y llwybr hwn, cefnogir pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth ac sydd am feithrin y sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud dewisiadau'n annibynnol. Ar gampws Llandrillo-yn-Rhos ceir ystafell synhwyraidd bwrpasol i ddysgwyr ag anghenion dysgu dwys a lluosog.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## TECHNOLEG FOROL

Ymhlith y pynciau a gynigir y mae gwaith coed, gwaith plastig wedi'i gryfhau â gwydr, systemau gyrru ac electroneg forol. Yn ystod y flwyddyn, trefnir cyrsiau arbenigol, fel cyrsiau RYA, cyrsiau sy'n ymdrin ag injans disel a chyrsiau VHF. Pan na fyddant ar y campws, caiff myfyrwyr gyfle i ddefnyddio a llywio cychod a meithrin eu sgiliau morwriaeth.

I gael rhagor o wybodaeth:

PRENTISIAETHAU AR GAEL!





Gwnewch gais ar-lein:

**gllm.ac.uk**

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

## CYFRYNGAU, TELEDU A FFILM

Cewch eich dysgu gan staff proffesiynol cymwysedig sydd wedi cael profiad perthnasol yn y diwydiant, a chewch feithrin sgiliau ymarferol wrth gwblhau prosiectau go iawn i ddiwydiannau a sefydliadau lleol. Ymhlith y sgiliau a gaiff eu meithrin mae cynhyrchu fideo, ffotograffiaeth a'r gallu i ddefnyddio meddalwedd golygu fideo Adobe.


Cewch eich annog i ddatblygu'ch gallu creadigol drwy fynd ar brosiectau profiad gwaith gyda chyflogwyr lleol fel Venue Cymru, Chwarel TV, Canned Media ac 'It's My Shout'. Caiff y prosiectau hyn eu darlledu ar BBC2 Cymru ac S4C.

Caiff ein cyrsiau eu cynnal mewn cyfleusterau ardderchog lle ceir y dechnoleg ddiweddaraf sy'n cynnwys ystafelloedd cyfryngau gyda meddalwedd o safon a gydnabyddir gan y diwydiant, a stiwdio aml-gamera  ac ystafell sain i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau ym maes ffilm a theledu. Golyga hyn y bydd eich sgiliau'n gyfoes ac yn hynod o ddefnyddiol.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Cynhyrchu Cyfryngau
- Cyfryngau Digidol
- Ffilm a Theledu

I gael rhagor o wybodaeth:





Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

# TECHNOLEG CERBYDAU MODUR

Yn ein canolfannau, ceir yr offer diweddaraf sy'n cynnwys cyfleusterau i gynnal asesiadau ar roleri ac asesiadau diagnostig, cyfleusterau weldio a ffabrigo, bwth chwistrellu USI, technoleg hybrid a systemau rheoli tymheredd mewn cerbydau.

Cynigir amrywiaeth o gyrsiau, yn ogystal â rhaglenni hyfforddi pwrpasol i'r diwydiant moduro. Gall myfyrwyr hefyd feistroli sgiliau ail-orffennu awyrennau.

PRENTISIAETHAU AR GAEL!

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Ffabrigo a Weldio
- Trin a Thrwsio Cerbydau Trwm
- Trin a Thrwsio Cerbydau Ysgafn
- Trwsio Cyrff Cerbydau Modur
- Ail-orffennu Cerbydau (Cerbydau Modur ac Awyrennau)

I gael rhagor o wybodaeth:



SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH

gllm.ac.uk



Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## CELFYDDYDAU PERFFORMIO, CERDDORIAETH A THECHNOLEG CERDDORIAETH

Celfyddydau Perfformio Cewch ddysgu am bob agwedd ar berfformio, gan gynnwys drama, dawns, canu, cerddoriaeth a chrefft llwyfan. Yn ystod y cwrs, cewch gyfleoedd ymarferol i feithrin eich sgiliau perfformio drwy gymryd rhan mewn sioeau yn y coleg, yn ogystal â pherfformio mewn theatrau proffesiynol allanol. Cewch hefyd gyfle i ddilyn gweithdai ac ymweld â theatrau a lleoliadau ledled y Deyrnas Unedig er mwyn meithrin dealltwriaeth ehangach o ddiwydiant y celfyddydau perfformio.

Cerddoriaeth a Thechnoleg Perfformio Cewch brofiad uniongyrchol o weithio mewn stiwdio recordio broffesiynol a defnyddio ystafelloedd cynhyrchu cerddoriaeth lle y ceir offer cyfoes o'r un safon ag a geir yn y diwydiant. Byddwch yn cael eich annog i feithrin eich sgiliau cyfansoddi a pherfformio ac i gymryd rhan mewn cynyrchiadau cerddorol a gigs. Cewch gyfle hefyd i fynd i gigs a gweithdai a gynhelir gan artistiaid adnabyddus yn eu maes ac i ddysgu sut i ennill bywoliaeth yn y diwydiant cerddoriaeth.

PRENTISIAETHAU AR GAEL!




I gael rhagor o wybodaeth:

## CYN-ALWEDIGAETHOL

Yn y maes hwn, mae'r ddau lwybr canlynol ar gael:

**Cyn-alwedigaethol**
Prif ddiben y llwybr hwn yw cefnogi pobl ifanc er mwyn iddynt fynd ymlaen i ddilyn cyrsiau llawn amser mewn addysg brif ffrwd, i gael gwaith gwirfoddol neu waith cyflogedig neu i ddilyn prentisiaethau neu raglenni ymgysylltu / hyfforddeiaethau. Ceir cyfleoedd i fynd ar brofiad gwaith gyda chyflogwyr lleol fel Zip World, Gerddi Bodnant a'r Farm and Pet Place, neu ar sesiynau rhagflas i feysydd rhaglen eraill. Yna bydd dysgwyr yn symud ymlaen i leoliad profiad gwaith annibynnol, un ai am gyflog neu'n wirfoddol.

**Project Search**
Prif ddiben y llwybr hwn yw cefnogi pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol er mwyn iddynt fynd ymlaen i waith cyflogedig llawn amser / rhan-amser, gan ddefnyddio'r model interniaeth gyda chymorth, Project Search. Y cyflogwr lleol sy'n cymryd rhan ym mhartneriaeth Project Search yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.



I gael rhagor o wybodaeth:

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

## GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae'r rhaglen hon yn addas i fyfyrwyr sydd am ddilyn gyrfa yn y gwasanaethau lifrog fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Cynlluniwyd y cyrsiau er mwyn rhoi i chi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd arnoch eu hangen i lwyddo yn eich swydd bresennol ac mewn swyddi yn y dyfodol, ac i'w cyflwyno fe ddefnyddir cyfuniad o dasgau a gweithgareddau ymarferol, rhai seiliedig ar waith a rhai'n ymwneud â theori.

I gael rhagor o wybodaeth:





## CHWARAEON AC ADDYSG AWYR AGORED

Ar bob cwrs, cyfunir gwaith theori a sesiynau ymarferol ag ymweliadau allanol a chyflwyniadau gan siaradwyr gwadd sy'n arbenigwyr yn eu meysydd, er mwyn meithrin eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Pa raglen bynnag y byddwch yn ei dilyn, cewch gyfle i ennill cymwysterau ychwanegol buddiol, gan gynnwys cymhwyster cymorth cyntaf, dyfarniadau awyr agored a chymwysterau hyfforddi mewn pob math o gampau.

**Rydym yn cynnig cyrsiau llawn amser yn y meysydd a ganlyn:**

- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Addysg Awyr Agored
- Chwaraeon (Perfformiad a Rhagoriaeth)
- Chwaraeon (Hyfforddi, Datblygu a Ffitrwydd)

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**

SGILIAU LLWYDDIANT CEFNOGAETH
gllm.ac.uk

## ACADEMÏAU

Mae ein hacademïau chwaraeon ar gampysau Bangor a Llandrillo-yn-Rhos yn darparu cyfleoedd i athletwyr yng Ngogledd Cymru barhau i astudio ar gyfer Lefel A neu gymwysterau Lefel 3 eraill, tra hefyd yn gwella eu ffitrwydd a'u sgiliau mewn rygbi, pêl-droed neu gamp arall. Caiff chwaraewyr addawol gyfle o bosibl i gael eu dewis i gystadlu ar lefel ranbarthol neu genedlaethol hefyd.

Mae Academi Llandrillo ac Academi Menai'n fentrau sy'n rhoi cyfle i athletwyr o bob gallu lawn ddatblygu eu potensial ar y maes chwarae, gan gyflawni'n academaidd hyd eithaf eu gallu ar yr un pryd.

Mae ein hacademïau chwaraeon yn cyfuno chwaraeon â dewis eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n gweddu i wahanol alluoedd a diddordebau. Golyga hyn y gallwch ennill cymwysterau a pharhau i hyfforddi a datblygu ym maes chwaraeon ar yr un pryd!

**Yn ein Hacademïau gallwch ddewis arbenigo yn y chwaraeon canlynol:**

**Pêl-droed**
Bydd yr Academi Bêl-droed yn rhoi cyfleoedd a chefnogaeth i chi feithrin eich sgiliau ac ehangu eich profiadau ar y maes chwarae, yn ogystal ag astudio ar gwrs academaidd llawn amser. Ar gael yng Ngholeg Llandrillo a Choleg Menai.

**Rygbi**
Mae'r Academi Rygbi'n rhedeg yn gyfochrog â'r cwrs a ddewiswch. Mae'n darparu rhaglen gyfannol sy'n rhoi sylw i ddatblygiad corfforol, technegol, tactegol a seicolegol yn ogystal â sut i reoli ffordd o fyw ar gael yng Ngholeg Llandrillo.







**I gael manylion y treialon ac i gael rhagor o wybodaeth am raglenni'r academïau, ffoniwch:**

Academi Llandrillo
01492 542 347

Academi Menai
01248 370 125

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**





## TEITHIO A THWRISTIAETH

Mae twristiaeth yn sector bwysig yng Ngogledd Cymru, ac mae'r maes rhaglen cyffrous hwn yn cynnig cyfleoedd i astudio o Lefel 2 hyd at lefel gradd. Mae ein myfyrwyr yn cael ymweld ag amrywiaeth o atyniadau yng Ngogledd Cymru, Caerdydd, Llundain, y Deyrnas Unedig a thramor.

Drwy raglen Erasmus+, cewch fanteisio hefyd ar gyfleoedd wedi'u hariannu'n llawn i fynd ar brofiad gwaith i Ewrop. Ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, ceir asiantaeth deithio lle mae myfyrwyr yn gweithio ac yn cael cyfle i loywi eu sgiliau cyflogadwyedd.

Bydd ein myfyrwyr yn mynd ymlaen i weithio i amrywiaeth o gwmnïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys canolfannau ymwelwyr, asiantaethau teithio, trefnwyr teithiau a chwmnïau hedfan fel British Airways, Titan Airways a TUI.

I gael rhagor o wybodaeth:

# DOD O HYD I'CH GYRFA BERFFAITH

## Defnyddiwch yr Hyfforddwr Gyrfa ar ein gwefan i ddod o hyd i'ch gyrfa ddelfrydol...

Bydd ein cwis ar-lein yn gofyn cyfres o gwestiynau i chi am eich diddordebau a'ch sgiliau, ac yna'n eu defnyddio i roi dewis o yrfaoedd posibl i chi.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar lwybr gyrfa, gallwch ddefnyddio'n gwefan i ganfod pa gwrs neu gyrsiau sydd eu hangen arnoch i'ch helpu i gyrraedd eich nod!


**gllm.ac.uk/careers**



# SUT I WNEUD CAIS

Os ydych yn gwybod pa gwrs llawn amser yr ydych am wneud cais amdano, gallwch wneud cais ar-lein yn uniongyrchol o'r dudalen sy'n rhoi gwybodaeth i chi am y cwrs.

I wneud cais, dewiswch eich campws ac yna cwblhewch y broses gofrestru drwy ddilyn y cyfarwyddiadau sydd ar y sgrin.




## GWYBODAETH BELLACH

**Tâl am Adnoddau**
Bydd gofyn i fyfyrwyr llawn amser dalu tâl blynyddol am adnoddau. Am yr un taliad hwn, cewch gyfrif e-bost personol, mynediad i'r rhyngrwyd, adnoddau cwricwlaidd a rhyddid i ddefnyddio'r llyfrgell, yn ogystal â Cherdyn Adnabod colegol a'r hawl i argraffu'ch gwaith (hyd at £30) yn yr ystafell ddosbarth neu yn y gweithdy TG. Bydd yn rhaid i chi dalu'r Tâl am Adnoddau wrth gofrestru yn ystod eich wythnos gyntaf yn y Coleg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan.

**Cynllun Iaith Gymraeg**
Mae Grŵp Llandrillo Menai'n gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd, a chroesawa ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion**
Mae Grŵp Llandrillo Menai'n ymfalchïo yn y gofal y mae'n ei roi i gwsmeriaid ac yn y trefniadau sy'n ategu hynny. Cysylltwch â ni os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw un o'n gwasanaethau.

**Cyfle Cyfartal**
Mae Grŵp Llandrillo Menai'n herio pob ffurf ar wahaniaethu ac yn cadw golwg ar effeithiolrwydd ei bolisïau mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Gallwch weld y polisïau hynny ar y wefan. Mae Bwrdd y Llywodraethwyr a'r staff am sicrhau bod pawb sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai'n cael eu trin yn deg. Mae pob coleg yn falch o allu cynnig cyngor a chefnogaeth arbenigol er mwyn i fyfyrwyr ac ymwelwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledd allu defnyddio ein cyfleusterau a'n gwasanaethau.

**Newid a Chanslo**
Credir bod y manylion a geir yn yr arweinlyfr hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Ni ellir dal Grŵp Llandrillo Menai'n gyfrifol os bydd yn rhaid newid neu ganslo cyrsiau am resymau anorfod. Ni chynhelir rhai cyrsiau os na fydd digon o fyfyrwyr wedi archebu lle ymlaen llaw. Gwiriwch fanylion eich cwrs cyn cofrestru, os gwelwch yn dda.

Gwnewch gais ar-lein:
**gllm.ac.uk**